**Cofnodion cyfarfod o Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru a gynhaliwyd am 10.30am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth ddydd Gwener 4 Tachwedd 2016**

**Yn Bresennol:** Dai Davies (Cadeirydd)
John Brereton, Will Haresign, Bethan Jones, Gwynn Angell Jones, Graham Probert, Richard Rogers, Richard Tudor, Wyn Williams a John Yeomans

**Trwy Wahoddiad:** Gary Haggaty (Llywodraeth Cymru)
Dr. Helena Bird (Llywodraeth Cymru)

**Tîm Gweithredol:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Prys Morgan (Pennaeth Gweithrediadau)
Julie Finch (Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol)
Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
Owen Roberts (Arweinydd Cyfathrebu)

Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Yn benodol, croesawyd Dr. Helena Bird, Llywodraeth Cymru.

Ar ran y Bwrdd, gwnaeth y Cadeirydd longyfarch Richard Tudor am ennill gwobr Ffermwr Cig Eidion y Flwyddyn yn nigwyddiad Gwobrwyon Farmers Weekly yn ddiweddar.

*Ailbenodi'r Cadeirydd*

Dywedodd y Cadeirydd wrth y cyfarfod na fyddai'n ceisio cael ei ailbenodi ar ddiwedd ei dymor (31 Mawrth 2017), ond byddai'n ymrwymedig o hyd i HCC yn ystod y cyfnod hwn. Byddai'r Ysgrifennydd Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, AC yn cael gwybod am hyn.

Dywedodd y Cadeirydd y bu'n fraint i wasanaethu fel Cadeirydd HCC ac yn anrhydedd i weithio gyda'r Bwrdd, y Prif Weithredwr a'r tîm ymroddedig o staff HCC yn ystod y chwe blynedd diwethaf, a diolchodd i bawb am eu cefnogaeth unfrydol.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu ers y cyfarfod blaenorol:-

*Medi 2016*

Bu'r Cadeirydd a'r Pennaeth Gweithrediadau yng Nghynhadledd Flynyddol Cymdeithas y Cyflenwyr Cig Annibynnol. Ymhlith y pynciau a drafodwyd yn y gynhadledd roedd y rhagolygon ar gyfer cynhyrchu da byw, y goblygiadau masnachol yn sgil BREXIT a pharhau i gydweithio â'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA).

Bu'r Cadeirydd mewn cyfarfod o Fwrdd Da Byw'r NFU lle buwyd yn trafod prisiau'r farchnad ac, yn benodol, y farchnad newidiol ar gyfer ŵyn ysgafn a Mamwladoli Ardoll.

Cyfarfu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr â'r Ysgrifennydd Cabinet i drafod problemau cyfredol yn y diwydiant cig coch, gan gynnwys Mamwladoli Ardoll.

Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr mewn cyfarfod o Fwrdd Bwyd a Diod Llywodraeth Cymru lle rhoesant grynodeb o swyddogaeth HCC a diweddariad am weithgareddau.

*Hydref 2016*

Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yng Ngweithdy Fforwm Bord Gron Brexit yr Adran Amgylchedd a Materion Gwledig ar 3 Hydref 2016.

Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yng nghynhadledd flynyddol Undeb Amaethwyr Cymru a oedd â'r thema 'Materion Ffermio – Cyfleoedd am Dwf ar ôl Brexit.

Bu'r Cadeirydd yn lansiad swyddogol Aldi ar gyfer cyflwyno cynhyrchion Cig Oen Cymru PGI wedi'u brandio mewn 29 o siopau yn Ne a Gorllewin Cymru. Roedd yr Ysgrifennydd Cabinet ac uwch-gynrychiolwyr o'r undebau amaethyddol yn bresennol hefyd.

Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn SIAL lle cafwyd trafodaeth gyda'r Gwir Anrhydeddus Andrea Leadsom, AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, ynghylch mynediad i'r farchnad sengl ar ôl Brexit, marchnadoedd y tu allan i'r UE a Chytundebau Masnach Rydd.

*Tachwedd 2016*

Bu'r Cadeirydd yn cadeirio cyfarfod i'r diwydiant ynghylch y farchnad bresennol ar gyfer ŵyn ysgafn. Mynychwyd y cyfarfod gan gynrychiolwyr o Undeb Amaethwyr Cymru, y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol (NSA) ac NFU Cymru. Trafodwyd yn fanwl y pryderon am y galw am y math yma o ŵyn, ynghyd â'r heriau ac ansicrwydd sy'n wynebu'r sector ar ôl Brexit.

Siaradodd y Cadeirydd yng nghynhadledd flynyddol NFU Cymru lle'r oedd Brexit a'i effaith ar amaethyddiaeth yng Nghymru yn brif bwnc.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Andy Richardson, Cadeirydd Bwrdd Bwyd a Diod Cymru Llywodraeth Cymru, a oedd yn methu bod yn bresennol oherwydd ymrwymiadau eraill.

3. **Datganiad o Fuddiannau**

Nodwyd Datganiadau o Fuddiannau fel a ganlyn:-

Rheoli Credyd - John Brereton a Wyn Williams.

4. **I dderbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Gwener 9 Medi 2016 (HCC 715)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Gwener 9 Medi 2016 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

*Adroddiad Monitro Blynyddol 2015 / 2016 o'r Cynllun Gweithredu Strategol (Gweledigaeth 2020) (HCC 713)*

Nodwyd bod yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Ysgrifennydd Cabinet i'w gymeradwyo.

*Cais i gofrestru'r enw "Cig Oen Mynyddoedd Cambria" fel Enw Tarddiad Gwarchodedig (PDO) o dan Gynllun Enw Bwyd Gwarchodedig yr UE (HCC 714)*

Cafodd sylwadau HCC ar yr uchod eu cyflwyno a'u cydnabod.

*Gwneud defnydd cyfrifol o Feddyginiaethau ym Mhwyllgor y Gynghrair Amaeth (Ruma)*

Byddai'r Pennaeth Gweithrediadau yn ceisio canfod a yw Llywodraeth Cymru yn cael ei chynrychioli ar y Pwyllgor.

6. **Adroddiadau HCC**

a. *Adroddiad Gweithgareddau (HCC 716)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

*Hybu Proffidioldeb Cig Eidion trwy Arloesedd*

Cafodd staff HCC eu cymeradwyo am drefnu ac am sicrhau ansawdd y gynhadledd “Hybu Proffidioldeb Cig Eidion trwy Arloesedd” a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2016 ar Faes Sioe Frenhinol Cymru.

Bu’r gynhadledd yn canolbwyntio ar wella effeithlonrwydd y fuches sugno gig eidion yng Nghymru, ac roedd nifer dda o fridwyr, ffermwyr a chynrychiolwyr o’r diwydiant yn bresennol.

*Gwefan Gorfforaethol HCC*

Roedd y gwaith wedi dechrau ar adolygu dyluniad ac ymarferoldeb gwefan gorfforaethol HCC.

Roedd yr Arweinydd Cyfathrebu’n croesawu adborth gan y Bwrdd ar sut y gellid gwella’r wefan.

b. *Bwletin y Farchnad (HCC 717)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi’i ddarllen.

c. *Ariannol – Incwm a Gwariant a’r Fantolen tan 30 Medi 2016 (HCC 718)*

Cyflwynwyd yr uchod a chafwyd crynhoad gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol:

Câi’r gyllideb ddrafft ar gyfer 2017 / 18 ei dosbarthu i’r Bwrdd cyn y Sesiwn Cynllunio Busnes ar ddydd Mercher, 9 Tachwedd 2016.

d. *Digwyddiadau i Ddod (HCC 719)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi’i ddarllen.

Nodwyd bod Sioe deithiol Moredun i fod i gael ei chynnal ar 8 Tachwedd 2016 ac nid ar 1 Tachwedd 2016 fel y nodwyd yn y papur.

e. *I gael diweddariad ar lafar am:-*

***Sesiwn Bwrdd HCC a Chynllunio Busnes 2017 / 2018 – Dydd Mercher 9 Tachwedd 2016***

Cafodd y Bwrdd ei friffio gan y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol.-

Cyflwynwyd agenda drafft ar gyfer y cyfarfod, yn ymwneud â'r pynciau a ganlyn:-

- Tueddiadau'r farchnad, lefelau cynhyrchu ac incwm ffermydd ar hyn o bryd
- Adolygiad o'r heriau / cyfleoedd sy'n wynebu'r sector cig coch yn 2017 / 2018 a thu hwnt
- Y prif feysydd gweithgaredd yn y flwyddyn Gynllunio Busnes bresennol / arfaethedig
- Y Camau Nesaf.

Byddai'r cyfarfod yn gyfle i drafod a chyfrannu mewn perthynas â llunio'r Cynllun Busnes ar gyfer 2017 / 2018.

Nodwyd ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod hwn gan John Brereton a John Yeomans.

***Fforwm Holi ac Ateb Bwrdd HCC gyda Thalwyr Ardoll - 10 Tachwedd 2016***

Briffiwyd y Bwrdd gan yr Arweinydd Cyfathrebu.

Yn dilyn argymhelliad yn yr Adolygiad o HCC, byddai'r Fforwm yn cael ei ddarlledu'n fyw trwy Facebook.

Byddai'r wasg a'r cyfryngau'n cael gwahoddiad i fod yn bresennol.

***Cynhadledd Flynyddol HCC – Ddydd Iau 10 Tachwedd 2016***

Cyflwynwyd rhaglen ddrafft ar gyfer y gynhadledd a chafwyd crynodeb gan yr Arweinydd Cyfathrebu:-

Thema'r Gynhadledd oedd "Chwifio'r Faner – Darparu Rhagoriaeth yn yr Economi Newydd".

Roedd y rhaglen yn cynnwys anerchiad gan yr Ysgrifennydd Cabinet, ac yna cyflwyniadau gan:-

Gwyn Howells, Prif Weithredwr HCC
Andrew Slade, Llywodraeth Cymru
Yr Athro David Hughes, Athro Emeritws Bwyd a Marchnata (Coleg Imperial, Llundain)
Ken Sorenson, Asiant Allforio HCC yn Sgandinafia
Huw Williams, Ysgolor HCC, 2015
Richard Roderick, Ysgolor HCC, 2016.

***Y Ffair Aeaf – Dydd Llun 28 – Dydd Mawrth 29 Tachwedd 2016***

Bu'r Pennaeth Gweithrediadau yn briffio'r Bwrdd:-

Byddai presenoldeb HCC yn y Ffair Aeaf yn dechrau gyda'r brecwast blynyddol i'r diwydiant a gynhelid ddydd Llun 28 Tachwedd 2016 yn Hafod a Hendre.

O ran y defnyddwyr, ceid arddangosiadau coginio gan aelodau o Dîm Coginio Iau Cymru, y pen-cogydd Michelin Richard Davies a Llysgennad Clwb Cig Oen Cymru HCC (Gwesty Hamdden y Celtic Manor) ynghyd â Swyddog Gweithredol HCC ar gyfer y Defnyddwyr, Elwen Roberts. Yn ogystal, ceid arddangosiadau torri cig gan aelod o Glwb Cigyddion HCC, Mark McCardle.

I gynhyrchwyr, byddai deunydd darllen technegol ar gael, a chyfle i gymryd rhan mewn cystadleuaeth garcas.

7. **<u>I dderbyn cyflwyniad am Ymgyrch Cig Eidion Cymru PGI 2016 ar gyfer Defnyddwyr</u>**

Rhoddwyd cyflwyniad ynglŷn â'r uchod gan Reolwr Datblygu'r Diwydiant

Byddai'r ymgyrch eleni yn targedu menywod ABC1 (35+), â theuluoedd a heb deuluoedd ac sy'n siopa y prif archfarchnadoedd.

Roedd y strategaeth gyfathrebu yn seiliedig ar ymgysylltu mwy â'r gynulleidfa darged trwy gyfunioni â gwladgarwch Cymreig. Byddai'r cyfathrebiadau yn rhoi tystiolaeth o'r hyn sydd y tu ôl i ansawdd y brand/cynnyrch, a thrwy hynny yn ysbrydoli defnyddwyr â syniadau a chyngor ymarferol.

Roedd y strategaeth greadigol yn tynnu sylw at ddyanwad y tir a'r dreftadaeth ar gynhyrchu Cig Eidion Cymru o'r ansawdd gorau.

O gofio bod y gyllideb eleni'n llai na'r llynedd, yr her oedd cynnal ymwybyddiaeth o'r brand ar lefel 2015, a fu'n llwyddiannus iawn. Felly, argymhellwyd y dylid arwain yr ymgyrch gyda hysbysebu ar y teledu (defnyddio'r un hysbyseb) gyda negesau atodol trwy'r cyfryngau cymdeithasol a Chysylltiadau Cyhoeddus er mwyn creu ffresni ac estyn oes yr ymgyrch. Byddai'r brif ymgyrch yn rhedeg o ddechrau Tachwedd tan yr wythnos gyntaf yn Rhagfyr.

8. **<u>I dderbyn diweddariad 6-misol am Dargedau Cynllun Busnes HCC ar gyfer 2016 / 2017 (HCC 720)</u>**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol.

Roedd y ddogfen yn amlinellu perfformiad HCC yn ystod y chwe mis cyntaf, mewn cymhariaeth â thargedau'r Cynllun Busnes 2016 / 2017.

Nodwyd bod yr holl weithgaredd wedi dechrau ac nad oedd unrhyw broblemau i'w crybwyll.

9. **<u>I gytuno ar gyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru a'r costau adennill ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef 2017 / 2018 (HCC 721)</u>**

Cyflwynwyd yr uchod gan y Prif Weithredwr.

Er gwybodaeth, dywedwyd bod y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) a Quality Meat Scotland (QMS) wedi argymell y dylid cadw'r un cyfraddau ardoll ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Yna cafwyd trafodaeth o amgylch y bwrdd ynglŷn â'r hinsawdd economaidd bresennol, tueddiadau'r farchnad a'r heriau sylweddol i gynhyrchwyr da byw a phroseswyr.

Bydd canlyniad y bleidlais i adael yr UE yn golygu cyfnod o ansicrwydd ynghylch cymorth i ffermwyr, polisi, rheoleiddio a chysylltiadau masnachu â'r UE a gweddill y byd. Felly, byddai'n cymryd cryn amser cyn i'r effaith ar ffermio yng Nghymru, ac ar gynhyrchwyr cig coch yn benodol, gael ei ddeall yn iawn.

Serch hynny, roedd yn glir y byddai rhan HCC yn cefnogi'r diwydiant cig coch yn hanfodol bwysig yn y dyfodol er mwyn datblygu sector proffidiol a chynaliadwy. Er mwyn i HCC allu gyflawni ei gyfrifoldebau ar ran y diwydiant, byddai'n rhaid iddo gael cyllid digonol.

Fodd bynnag, ac ystyried yr uchod ynghyd â'r trafodaethau a oedd yn parhau ynghylch Mamwladoli Ardoll a chyfleoedd ar gyfer cymorth ariannol o ffynonellau eraill, ystyriwyd taw priodol fyddai cadw'r cyfraddau Ardoll yr un fath yn 2017/18.

Cytunodd y Bwrdd ag argymhelliad y Weithrediaeth y dylid cadw'r cyfraddau Ardoll a'r costau adennill ar gyfer 2017 / 2018 yr un fath ag oeddynt yn 2016 / 2017:-

| **Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru ar gyfer 2017 / 2018** | | | |
|---|---|---|---|
| *(y pen)* | **Cyfanswm, y Casgliad Ardoll** | **Cyfanswm wedi'i Dalu gan y Cynhyrchwr** | **Cyfanswm wedi'i dalu gan y Lladd-dy/Allforiwr** |
| **Defaid** | £ 0.83 | £ 0.63 | £ 0.20 |
| **Gwartheg** | £ 5.67 | £ 4.34 | £ 1.33 |
| **Lloi** (hyd at 68kg) | £ 0.17 | £ 0.085 | £ 0.085 |
| **Moch** | £ 1.30 | £ 1.05 | £ 0.25 |

| **Costau Adennill Ardoll ar gyfer 2017 / 2018** | |
|---|---|
| **Rhywogaeth** | **Ardoll wedi'i Hadennill (y pen)** |
| Defaid | £0.010 |
| Gwartheg | £0.030 |
| Moch | £0.013 |

Câi'r argymhelliad ei gyflwyno i Weinidogion Cymru, sydd â'r cyfrifoldeb llawn am osod a chodi cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru.

10. **I drafod y camau nesaf ynghylch yr Adolygiad o HCC**

Nodwyd bod argymhelliad ychwanegol wedi ei gynnwys yn yr adroddiad terfynol:-

"Llywodraeth Cymru i ystyried faint o gynnyrch organig sydd ei angen yn y gadwyn fwyd a'r potensial i wella'r sefyllfa drwy hyrwyddo."

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad byr am y cynnydd a wnaed hyd yma rhwng HCC a Llywodraeth Cymru ynghylch yr argymhellion. Cafodd rhai o'r argymhellion eu rhoi ar waith. Roedd gwaith yn mynd yn ei flaen i weithredu eraill megis Dogfen Fframwaith a oedd yn cael ei llunio ar hyn o bryd ac a fyddai'n nodi'r fframwaith ar gyfer gweithredu HCC a Llywodraeth Cymru. Byddai'r manylion yn cael eu rhannu â'r Bwrdd maes o law.

11. **I gael diweddariad am gyfarfodydd Llywodraeth Cymru ynghylch canlyniad Refferendwm yr UE**

Roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn bresennol mewn cyfarfod yn ddiweddar i ystyried yr adborth o gyfarfodydd gweithdai Llywodraeth Cymru a gynhaliwyd ddiwedd yr haf.

Nod y fforwm hwn yn y pen draw oedd datblygu themâu cyffredin y gellid eu defnyddio'n sail ar gyfer pecynnau cymorth i'r diwydiant yn y dyfodol.

Cynhelid cyfres o'r cyfarfodydd hyn i randdeiliaid yn ystod y misoedd nesaf..

12. **I dderbyn diweddariad llafar am Ddosbarthu Ardoll Cig Coch Prydain**

Nid oedd diweddariad i'w roi.

Nodwyd bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn bwriadu cyfarfod â George Eustice, AS, y Gweinidog dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, yn yr wythnos yn dechrau 7 Tachwedd 2016 pan fyddai hyn yn un o'r pynciau trafod.

13. **<u>I dderbhyn diweddariad am gyfarfod Fforwm Cig Defaid yr UE – Dydd Iau 13 Hydref 2016</u>**

Roedd y Prif Weithredwr yn bresennol yng nghyfarfod olaf Fforwm Cig Defaid yr UE a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2016 pan gyflwynwyd a thrafodwyd yr adroddiad terfynol gydag argymhellion gan y Fforwm.

Crynhowyd dau argymhelliad blaenoriaethol:-

1. **Cymorth Cryf i Ddefaid gan y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)**

   Mae Fforwm Cig Defaid yr UE yn argymell cymorth cryf gan PAC i gynhyrchwyr defaid yn y dyfodol, gan gynnwys cymorth cysylltiedig yn ogystal â mesurau Datblygu Gwledig sy'n cael eu blaenoriaethu a'u gwella. Wrth gydnabod y rhan allweddol sydd gan ddefaid yn gwella'r amgylchedd mewn systemau tir glas llai dwys, mae'r Fforwm yn argymell y dylai'r Comisiwn ystyried taliad Amgylcheddol newydd."

2. **Rhaglen Gyfathrebu a Hyrwyddo Newydd ar gyfer Cig Defaid**

   "Mae Fforwm Cig Defaid yr UE yn argymell Rhaglen Gyfathrebu a Hyrwyddo newydd sydd yn canolbwyntio'n gryf ar y farchnad fewnol gyda'r nod o wneud cig oen yr UE yn ddewis awtomatig i ddefnyddwyr yr UE. Oddi mewn i fesurau hyrwyddo'r UE, dylid targedu defaid â chyllid penodol sydd wedi ei glustnodi."

Roedd Fforwm Cig Defaid yr UE am i'r argymhellion gael eu mabwysiadu gan y cyrff perthnasol a'u gweithredu ar lefel yr UE ac yn genedlaethol. Cafodd yr argymhellion eu cyflwyno i'r Comisiynydd Hogan, ac roedd Cadeirydd y Fforwm, John Bryan, wedi argymell y dylai'r Comisiwn roi gwybod i'r Cyngor am ganlyniad Fforwm Cig Defaid yr UE.

Cytunwyd rhannu'r adroddiad o argymhellion gyda'r Bwrdd er gwybodaeth.

14. **<u>I dderbyn diweddariad llafar ynghylch cais HCC am gyllid gan y Cynllun Datblygu Gwledig 2014 – 2020 ar ran y Diwydiant Cig Coch</u>**

Rhoddwyd y diweddaraf i'r Bwrdd gan y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol.-

Roedd cyfarfodydd yn dal i gael eu cynnal rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a nifer o gyrff / contractwyr y llywodraeth.

Erbyn hyn roedd Llywodraeth y DG wedi estyn ei hymrwymiad i ariannu hyd nes y byddai'r DG yn ymadael â'r UE. Oherwydd hyn, doedd dim rhaid bellach i brosiectau gael eu cymeradwyo cyn datganiad yr hydref.

Byddai hyn yn rhoi cyfle i HCC ailedrych ar raddfa'r Fenter Strategol arfaethedig er mwyn gwireddu’r uchelgeisiau gwreiddiol a’i hintegreiddio â rhaglenni eraill.

Roedd y Weithrediaeth yn parhau â’r gwaith sydd yn ymwneud â hyn a disgwylid diweddariad gan y Llywodraeth yn ystod mis Ionawr 2017.

15. **Y Pwyllgor Cynghori Y&D**

*I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori Y&D a gynhaliwyd ddydd Mercher 1 Mehefin 2016 (HCC 722)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi’i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

16. **I dderbyn diweddariad llafar ar EIDCymru – y gronfa ddata ar gyfer symud defaid**

Rhoddwyd diweddariad i’r Bwrdd gan y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol.-

Yn ystod y cyfnod brig ar gyfer symud defaid, cafwyd 14,000 o symudiadau defaid ym mis Medi 2016 a 12,000 yn ystod mis Hydref y flwyddyn honno.

Roedd y tîm Swyddfa a Thechnegol yn dal i gymell ceidwaid defaid i gyflwyno data ar-lein.

Yn ogystal, roedd y tîm technegol yn dal i weithio ar y cyd â’r Canolfannau Cofnodi Canolog a chafwyd cyfres o gyfarfodydd gyda Chyswllt Ffermio.

Nodwyd y byddai EIDCymru yn bresennol yn y Ffair Aeaf.

17. **Papur er gwybodaeth:- Pwysigrwydd Allforion i Ddiwydiant Cig Coch Cymru (HCC 723)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi’u darllen, ac fe’i croesawyd gan y Bwrdd.

18. **Unrhyw fater arall**

*Penodiadau i Fwrdd HCC*

Byddai Uned Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn arwain y broses ar gyfer yr uchod ac roedd disgwyl i’r hysbyseb gael ei rhyddhau yn ystod yr wythnosau nesaf, gyda Bwrdd newydd yn ei le o 1 Ebrill 2017.

Nodwyd y byddai rhai aelodau o'r Bwrdd wedi gwasanaethau am 9 mlynedd, sef y cyfnod hwyaf a ganiateir, (fel a nodir ym mholisi HCC ar gyfer Ailgyflenwi'r Bwrdd) ar 31 Mawrth 2016.

Roedd yr Ysgrifennydd Cabinet yn awyddus i weld gwell cydbwysedd rhwng nifer y dynion a menywod ar y Bwrdd.

*IBERS – Diadell Penfrith Beulah Llanarth*

Nodwyd ei bod yn ymddangos y byddai IBERS, er gwaethaf rhai gwrthwynebiadau, yn gwerthu'r diadelloedd ddefaid magu pedigri Beulah, Texel a Suffolk. Deellid y byddai menter ddefaid masnachol yn cymryd eu lle.

*Undeb Amaethwyr Cymru - Y defnydd o'r term "Hesbinod/Hoggets"*

Cafwyd gohebiaeth gan Glyn Roberts, Llywydd Undeb Amaethwyr Cymru ynghylch yr uchod.

Cafodd y pwnc ei drafod mewn cyfarfod diweddar o Gyngor Undeb Amaethwyr Cymru pan gytunwyd na ddylid, os yn briodol, ddefnyddio'r term 'hesbinod' cyn bod yr anifeiliaid yn 12 mis oed. Byddai hyn hefyd yn unol ag argymhellion i gyflwyno dyddiad calendr sefydlog ar gyfer hollti carcasau. Cytunodd y Cyngor hefyd na ddylai hyn atal unigolion a busnesau rhag disgrifio eu cynnyrch yn 'gig hesbinod' cyn unrhyw ddyddiad terfynol os oedd lle i gredu y byddai hyn yn fuddiol o ran marchnata, etc.

Gofynnodd Undeb Amaethwyr Cymru am gefnogaeth HCC i'r uchod.

Cytunodd y Bwrdd â barn Undeb Amaethwyr Cymru. Cytunwyd y dylid ymateb yn unol â hyn a thrafod sut y gellid, yn ymarferol, ddefnyddio'r term 'hesbinod' yn fwy cywir.

19. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Gwener 13 Ionawr 2017.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**